# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Hydref 2016

Amser: 09.00 - 09.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3754

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Jayne Bryant AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Julie Morgan AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Claire Morris (Ail Glerc)<br>Stephen Boyce (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Caroline Jones AC.

## 2 Cynllunio strategol a thrafod ymchwiliadau posibl

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ac yn cytuno ar ei amcanion strategol lefel uchel ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ei flaenoriaethau a gynhaliwyd dros yr haf.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i roi blaenoriaeth i'r ymchwiliadau canlynol dros y 12-18 mis nesaf:

- Dementia;
- Gofal sylfaenol;
- Teimlo'n ynysig neu'n unig;
- Defnyddio meddyginiaeth gwrthseicotig;
- Iechyd y cyhoedd a chwaraeon.

2.4 Byddai'r Pwyllgor hefyd yn cysylltu â phawb a oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar ei flaenoriaethau, i roi gwybod iddynt am ei raglen waith.

2.5 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd arbenigwyr ym maes cynllunio'r gweithlu er mwyn helpu gyda'i ymchwiliad i gynaliadwyedd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

## 3 Ymchwiliad i recriwtio meddygol – Paratoad ar gyfer ymweliad i'r Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd

3.1 Bu'r Pwyllgor yn ymweld ag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd fel rhan o'i ymchwiliad i recriwtio staff meddygol.